| | |
|---|---|
| **Title:** | Gofal Personol - Meithrinfa Toybox<br>Intimate Care - Toybox Nursery |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Students , nursery staff and children |

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity**

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Impact assessment* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | *Rhestrwch nhw / Please list*<br>Staff y Feithrinfa<br>Nursery staff | | |
| **Dyddiad cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *15/01/25* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | *Os yn berthnasol / If applicable* |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 15/01/28 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

Ym **Meithrinfa Toybox** rydym yn credu bod pob plentyn angen cyswllt cyson â gofalwyr cyfarwydd er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu tyfu a datblygu'n gymdeithasol ac yn emosiynol. Ar adegau mae angen cynnig cwtsh ac anogaeth i blant yn ogystal â'u dal nhw'n dynn a rhoi sicrwydd corfforol iddyn nhw.

Mae arferion gofal personol yn hanfodol drwy gydol y dydd i ddiwallu anghenion sylfaenol plant. Gall hyn gynnwys newid clytiau, helpu plant i fynd i'r toiled, newid dillad a rhoi triniaeth cymorth cyntaf a chymorth meddygol arbenigol, lle bo angen.

Er mwyn cynnal preifatrwydd y plentyn, byddwn yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r camau hyn ar sail un i un a hynny gan weithiwr allweddol y plentyn pan fo hynny'n bosib ac eithrio triniaeth cymorth cyntaf y mae'n rhaid ei gyflawni gan swyddog cymorth cyntaf pediatrig cymwys.

Rydym yn dymuno sicrhau diogelwch a lles plant yn ystod trefn gofal personol a'u diogelu rhag unrhyw niwed posibl yn ogystal â sicrhau bod yr aelod staff dan sylw yn cael ei gefnogi'n llawn ac yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau'n ddiogel ac yn hyderus. Ein nod yw helpu'r holl bartïon trwy'r camau gweithredu canlynol:

- Hyrwyddo perthnasau gofalgar a chyson trwy'r system gweithiwr allweddol yn y feithrinfa a gwneud yn siŵr fod yr holl rieni yn deall y system
- Gwneud yn siŵr fod yr holl staff sy'n cyflawni arferion gofal personol yn addas a gyda gwiriadau DBS uwch
- Hyfforddi'r holl staff yn y dulliau priodol ar gyfer arferion gofal personol a threfnu hyfforddiant arbenigol lle bo angen, h.y. hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, cymorth meddygol arbenigol
- Gwneud yn siŵr fod plant yn cael preifatrwydd yn ystod arferion gofal personol gan gydbwyso hyn â'r angen i ddiogelu plant a staff. Ni fydd arferion personol neu newid clytiau yn cael eu gwneud y tu ôl i ddrysau caeedig.
- Cynnal cyflwyniadau trylwyr i bob aelod newydd o staff i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o holl weithdrefnau'r feithrinfa sy'n ymwneud ag arferion gofal personol
- Dilyn gweithdrefnau drwy gyfarfodydd goruchwylio a sgyrsiau cysylltiedig i nodi unrhyw feysydd i'w datblygu neu hyfforddiant pellach
- Cydweithio'n agos gyda rhieni ar bob agwedd o ofal ac addysg y plentyn fel y gwelir yn y Polisi Rhieni fel Partneriaid. Mae'n hanfodol ar gyfer arferion gofal personol sydd angen hyfforddiant neu gefnogaeth arbenigol. Os oes angen cymorth penodol ar blentyn, bydd y feithrinfa'n trefnu cyfarfod gyda'r rhiant i ddarganfod yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â hyn er mwyn galluogi'r staff i ofalu'n llawn am y plentyn a diwallu ei anghenion unigol.
- Sicrhau bod gan yr holl staff ddealltwriaeth gyfredol o'r polisi Diogelu Plant ac Amddiffyn Plant gan gynnwys sut i amddiffyn plant rhag niwed. Bydd hyn yn cynnwys nodi arwyddion a symptomau cam-drin a sut i godi'r pryderon hyn fel y nodir yn y polisi Diogelu Plant ac Amddiffyn Plant.
- Rydym yn gweithredu polisi chwythu'r chwiban i helpu staff i godi unrhyw bryderon am eu cyfoedion neu reolwyr; a helpu staff i fagu hyder wrth godi pryderon wrth iddyn nhw godi er mwyn diogelu'r plant yn y feithrinfa
- Cynnal arsylwadau ar arferion gwaith ym mhob agwedd o weithrediadau'r feithrinfa i sicrhau bod y gweithdrefnau'n ymarferol a bod pob plentyn yn cael eu cefnogi'n llawn gan y staff. Mae hynny'n cynnwys arferion gofal personol.
- Cynnal asesiadau risg rheolaidd ar bob agwedd o weithrediad y feithrinfa gan gynnwys gofal personol ac adolygu'r mesurau diogelwch sydd ar waith. Mae'r

feithrinfa wedi asesu'r holl risgiau sy'n berthnasol i arferion gofal personol ac wedi gosod mesurau diogelwch i wneud yn siŵr fod diogelwch pawb yn cael ei ystyried.

Os oes gan unrhyw riant neu aelod staff bryderon neu gwestiynau am weithdrefnau gofal personol neu drefn unigol yna cysylltwch â'r rheolwr cyn gynted â phosibl.